WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Memorandwm esboniadol i'r Pwyllgor Cyllid ynghylch amrywio Amcangyfrif Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2020

Dyddiad cyhoeddi: Mai 2019

Cyfeirnod y ddogfen: 1243A2019-20

# Memorandwm esboniadol

Fe'i cyflwynir i Bwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'w ystyried o dan Reol Sefydlog 20.35.

Adrian Crompton
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

Isobel Everett
Cadeirydd ar ran **Swyddfa Archwilio Cymru**

# Cynnwys


Pwrpas y memorandwm esboniadol hwn

Cyflwyniad 4

Y rheswm dros y newid 4

Addasiadau i'r adnoddau refeniw a chyfalaf – egluro'r newidiadau 5

Y gofyniad arian parod net – egluro'r newidiadau 6

Crynodeb 8

Atodiadau

Atodiad 1 – Incwm a threuliau Swyddfa Archwilio Cymru 2019-20 (diwygiedig) 9

Atodiad 2 – Crynodeb o ofynion cyllidebol 2019-20 i'w cynnwys yng nghynnig cyllideb atodol Gweinidogion Cymru o dan adran 126 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 10

# Pwrpas y memorandwm esboniadol hwn

## Cyflwyniad

1 Ar gyfer pob blwyddyn ariannol, mae'n rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru gyflwyno amcangyfrif blynyddol o'i hincwm a'i gwariant i Bwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol. Mae'n rhaid i'r Pwyllgor bwyso a mesur yr amcangyfrif hwnnw a'i osod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol ar ôl gwneud unrhyw newidiadau sy'n briodol yn ei dyb ef.

2 Cafodd Amcangyfrif Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2019-20 ei gynnwys yng nghynnig cyllideb blynyddol Llywodraeth Cymru o dan Reol Sefydlog 20.26 ac fe'i cymeradwywyd yn y Cyfarfod Llawn ar 15 Ionawr 2019 ar ôl i'r Pwyllgor Cyllid graffu arno.

3 Roedd y cynnig ar y gyllideb yn caniatáu i Swyddfa Archwilio Cymru gadw £14.475 miliwn o adnoddau cronnus sy'n deillio o'r ffioedd a godir ar y cyrff a archwilir, ac roedd yn darparu £7.146 miliwn o adnoddau eraill i gefnogi ein cynlluniau gwariant ar gyfer y flwyddyn. Gyda'i gilydd, defnyddir y swm hwn o £21.621 miliwn i ariannu costau Swyddfa Archwilio Cymru pan fydd yn cyflawni ei dyletswyddau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

4 Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn awr yn ceisio diwygio'r Amcangyfrif cymeradwy ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2020.

## Y rheswm dros y newid

5 Roedd Amcangyfrif 2019-20 yn cyfeirio at gynnydd disgwyliedig yng nghyfraniadau pensiwn y cyflogwr yn sgil prisiad o Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil, ond nid oedd y prisiad hwnnw wedi'i gwblhau pan osodwyd ein Hamcangyfrif.

6 Roeddem yn disgwyl i'n costau gynyddu oddeutu £750,000 ac, fel yr eglurwyd ar y pryd, nid oedd modd inni ysgwyddo'r costau hynny o fewn ein cyllideb ar gyfer y flwyddyn. Bu inni egluro ein hopsiynau wrth y Pwyllgor Cyllid, sef naill ai ddychwelyd at y Pwyllgor i gynyddu ein galwad ar Gronfa Gyfunol Cymru neu geisio trosglwyddo'r cynnydd i'r cyrff a archwilir drwy gynyddu ein ffioedd. O wneud hynny, eglurwyd y byddai angen inni ddychwelyd at y Pwyllgor i gytuno ar Gynllun Ffioedd diwygiedig, yn ogystal ag Amcangyfrif diwygiedig.

7 Ar 7 Chwefror 2019, cyhoeddodd Swyddfa'r Cabinet gyfraddau o 1 Ebrill 2019 ar sail canlyniadau drafft y prisiad a dywedodd ei bod yn bwriadu diwygio'r rhain o 1 Ebrill 2020 pan fydd y prisiad wedi'i gwblhau. Gan fod y cyfraddau o 1 Ebrill 2019 wedi'u cadarnhau erbyn hyn, rydym wedi cyfrif y bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn ysgwyddo cost ychwanegol o £732,000 ym mlwyddyn ariannol 2019-20.

8 Cawsom wybod bod y Trysorlys wedi darparu arian i adrannau i dalu'r costau uwch hyn yn 2019-20[1]. Ac, ar 8 Mawrth, cyhoeddodd Rebecca Evans AC, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, y bydd 'Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid ychwanegol i sefydliadau sector cyhoeddus yn 2019-20 er mwyn eu galluogi i dalu'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â newidiadau pensiwn Llywodraeth y DU'.

9 Rydym wedi adolygu'r posibilrwydd o ysgwyddo cyfran o'r costau ychwanegol hyn o fewn ein Hamcangyfrif presennol ar gyfer y flwyddyn. Daethom i'r casgliad y byddai'r risgiau ariannol o wneud hynny'n rhy uchel yng nghyd-destun Amcangyfrif sy'n gofyn inni gyflawni tua £800,000 o arbedion o ran swyddi gwag yn ystod y flwyddyn a chael hyd i £574,000 ychwanegol yn ystod y flwyddyn drwy arbedion ac arbedion effeithlonrwydd eraill.

10 I dalu'r costau ychwanegol hyn, buom hefyd yn ystyried cynyddu ein cyfraddau ffioedd a, thrwy hynny, y ffioedd a godir ar gyrff cyhoeddus am ein gwaith archwilio. Daethom i'r casgliad y byddai hynny'n gwneud niwed mawr i enw da Swyddfa Archwilio Cymru, yn enwedig gan fod y Gweinidog wedi diogelu gwasanaethau cyhoeddus rhag costau uniongyrchol y cynnydd. Am y rhesymau hyn, rydym yn gofyn i'r Pwyllgor Cyllid gefnogi cynnig i gynyddu'r swm yr ydym yn ei gael o Gronfa Gyfunol Cymru. Mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn amlinellu'r addasiadau y mae angen eu gwneud i Amcangyfrif Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2019-20.

# Addasiadau i'r adnoddau refeniw a chyfalaf

11 Fel yr eglurir uchod, mae Swyddfa Archwilio Cymru yn gofyn am gynnydd o £732,000 i'w hadnoddau refeniw gofynnol ar gyfer 2019-20 i ariannu'r cynnydd yng nghostau pensiwn y cyflogwr. Ceir mwy o fanylion yn Atodiad 1.

12 Nodir y newidiadau gofynnol i'r gyllideb yn Arddangosyn 1.

Arddangosyn 1: newidiadau i gyllideb 2019-20

| | Amcangyfrif cymeradwy 2019-20 £'000 | Amcangyfrif atodol 2019-20 £'000 | Amcangyfrif diwygiedig 2019-20 £'000 |
|---|---|---|---|
| Adnodd refeniw | 6,936 | 732 | 7,668 |
| Adnodd cyfalaf | 210 | – | 210 |
| Adnoddau cronnus | 14,475 | – | 14,475 |
| Cyfanswm y gwariant | 21,621 | 732 | 22,353 |

[1] Pensiynau: Datganiad ysgrifenedig – HCWS1286 '… the Treasury is in the process of allocating funding to departments to help with these costs'.

# Y gofyniad arian parod net – egluro’r newidiadau

13 Yn ogystal â chynyddu ein gofyniad arian parod net i adlewyrchu’r cynnydd yng nghyfraniadau pensiwn y cyflogwr, mae angen inni wneud newid technegol pellach i adlewyrchu ein sefyllfa arian parod ar gyfer y flwyddyn sydd newydd ddod i ben.

14 Mewn blynyddoedd blaenorol, rydym wedi dychwelyd ar ddiwedd y flwyddyn dim ond yr elfen honno o’r tanwariant sy’n ymwneud yn benodol â’r gyllideb ar gyfer ‘adnoddau, ac eithrio adnoddau cronnus’ yn ein cyllideb gymeradwy (wedi’i haddasu ar gyfer unrhyw symudiadau o ran cyfalaf gweithio a thrafodiadau heb fod yn arian parod fel dibrisiant). Mewn geiriau eraill, rydym wedi dychwelyd dim ond yr elfen honno o’r arian parod sy'n ymwneud â gweithgareddau a ariennir gan Gronfa Gyfunol Cymru.

15 Roedd hyn yn adlewyrchu’r ffaith bod ein balansau arian parod i raddau helaeth yn ymwneud ag incwm ffioedd sydd wedi dod i law gan gyrff a archwilir cyn inni ymgymryd â'r gwaith archwilio. Mae’r rhan fwyaf o’n ffioedd yn cael eu codi ar ffurf rhandaliadau misol drwy gydol y flwyddyn, gyda gwaith archwilio’n cael ei gyflawni'n raddol ar draws blynyddoedd ariannol.

16 Mewn geiriau eraill, pan fyddwn yn derbyn incwm cyn inni ymgymryd â’r gwaith y mae’n berthnasol iddo, mae angen inni ddwyn yr incwm hwnnw ymlaen i dalu ein costau pan fyddwn yn ymgymryd â'r gwaith. Nid yw hyn yn fater o bwys yn ystod y flwyddyn ariannol ond, ar ddiwedd y flwyddyn, mae’n fater o bwys o ran cyfrifyddu Cronfa Gyfunol Cymru wrth inni symud o’r naill flwyddyn ariannol i’r llall. Mae angen dwyn ymlaen o’r naill flwyddyn ariannol i’r llall yr incwm sy’n dod i law ym mis Mawrth ar gyfer gwaith y byddwn yn ymgymryd ag ef o fis Ebrill ymlaen.

17 Mae ein Cyfarwyddwr Cyllid wedi cytuno ar ddull cyfrifyddu diwygiedig gyda swyddogion cyllid Llywodraeth Cymru a’n harchwilwyr allanol. O 2018-19 ymlaen, mae’r dull hwn yn dychwelyd ein balans arian parod cyfan yn ddangosol i Gronfa Gyfunol Cymru ar ddiwedd y flwyddyn (31 Mawrth) a’i aildynnu y flwyddyn ganlynol (1 Ebrill). Dychwelyd ac aildynnu dangosol yw hyn, yn hytrach na throsglwyddiad ariannol ffisegol, ac mae'n cydymffurfio â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol Trysorlys EM. Mae ein cyfrifon drafft ar gyfer 2018-19 yn cynnwys balans arian parod o £1,776,000 ar ddiwedd y flwyddyn.

18 O dan y dull cyfrifyddu diwygiedig hwn, byddwn yn dychwelyd ein **balans arian parod cyfan** yn ddangosol ar ddiwedd y flwyddyn (£1,776,000 ar gyfer 2018-19) ac yn ceisio addasiad i amcangyfrif arian parod Cronfa Gyfunol Cymru yn y flwyddyn ariannol newydd (2019-20) i adlewyrchu’r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn.

19 I ddwyn y balans hwn ymlaen ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd ac i adlewyrchu’r arian parod ychwanegol sydd ei angen i dalu'r costau pensiwn ychwanegol, mae angen cynnydd o £2,640,000 i’n gofyniad arian parod net ar gyfer 2019-20 fel y dangosir yn Arddangosyn 2.

Arddangosyn 2: newidiadau i ofyniad arian parod net 2019-20

| | Amcangyfrif cymeradwy 2019-20<br>£'000 | Amcangyfrif atodol 2019-20<br>£'000 | Amcangyfrif diwygiedig 2019-20<br>£'000 |
|---|---|---|---|
| Cais net am adnoddau – refeniw a chyfalaf | 7,146 | 732 | 7,878 |
| Addasiad anariannol | (200) | – | (200) |
| Addasiad ar gyfer cyfalaf gweithio 2018-19 (fel y dangosir yn Arddangosyn 3) | | 1,908 | 1,908 |
| Gofyniad arian parod net o Gronfa Gyfunol Cymru | 6,946 | 2,640 | 9,586 |

20 Nodir ein haddasiadau ar gyfer y cyfalaf gweithio yn unol â fersiwn ddrafft Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2018-19 yn Arddangosyn 3.

Arddangosyn 3: addasiad ar gyfer cyfalaf gweithio 2018-19

| | £'000 |
|---|---|
| Symiau masnach derbyniadwy a gwaith sy'n mynd rhagddo ar 31 Mawrth 2019 | (2,259) |
| Symiau derbyniadwy eraill ar 31 Mawrth 2019 | (339) |
| Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill ar 31 Mawrth 2019 | 1,538 |
| Incwm gohiriedig ar 31 Mawrth 2019 | 2,371 |
| Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau sy'n ddyladwy yn 2019-20 ar 31 Mawrth 2019 | 597 |
| Addasiadau i falansau arian parod 2018-19 | 1,908 |

## Crynodeb

21 Mae Arddangosyn 4 yn rhoi crynodeb o'r adnoddau cyfalaf a refeniw a'r gofyniad arian parod net diwygiedig o gymeradwyo'r amcangyfrif atodol hwn.

Arddangosyn 4: crynodeb o adnoddau a gofynion arian parod diwygiedig 2019-20

| | Cais am adnoddau £'000 | Gofyniad arian parod net £'000 |
|---|---|---|
| Adnodd refeniw | 7,668 | 9,376 |
| Adnodd cyfalaf | 210 | 210 |
| Cyfanswm | 7,878 | 9,586 |

# Atodiad 1

## Incwm a threuliau Swyddfa Archwilio Cymru 2019-20 (diwygiedig)

Arddangosyn 5: Incwm a threuliau Swyddfa Archwilio Cymru 2019-20 (diwygiedig)

| | | Amcangyfrif, y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2020 (diwygiedig) £'000 | Amcangyfrif, y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2020 £'000 |
|---|---|---|---|
| Treuliau | Costau staff | 15,917 | 15,185 |
| | Staff o dan gontractau tymor byr | 737 | 737 |
| | Teithio a chynhaliaeth | 1,216 | 1,216 |
| | Swyddfeydd | 993 | 993 |
| | Cwmnïau yn y sector preifat (gan gynnwys TAW) | 905 | 905 |
| | Balans TAW anadenilladwy | 500 | 500 |
| | TGCh | 480 | 480 |
| | Trefniadau llywodraethu Swyddfa Archwilio Cymru | 300 | 300 |
| | Hyfforddiant allanol | 289 | 289 |
| | Cyfieithu dogfennau | 165 | 165 |
| | Ffioedd cyfreithiol a phroffesiynol | 162 | 162 |
| | Cyflenwadau a gwasanaethau eraill | 479 | 479 |
| | **CYFANSWM Y TREULIAU** | **22,143** | **21,411** |
| Incwm | Ffioedd archwilio | 13,277 | 13,277 |
| | Ffioedd ardystio grantiau | 1,198 | 1,198 |
| | **CYFANSWM YR INCWM** | **14,475** | **14,475** |
| | **Cyfanswm y gyllideb refeniw i'w hariannu gan Gronfa Gyfunol Cymru** | **7,668** | **6,936** |

# Atodiad 2

## Crynodeb o ofynion cyllidebol 2019-20 i'w cynnwys yng nghynnig cyllideb atodol Gweinidogion Cymru o dan adran 126 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006

O dan adran 126 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ('Deddf 2006'), caiff Gweinidogion roi cynnig i gymeradwyo cyllideb atodol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol i ganiatáu i bersonau perthnasol penodol, gan gynnwys Swyddfa Archwilio Cymru, ddefnyddio adnoddau, cadw incwm a thynnu arian parod o'r Gronfa Gyfunol.

O ran gwasanaethau a dibenion Swyddfa Archwilio Cymru yn ystod y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2020, bydd cynnig y gyllideb yn caniatáu:

- swm yr adnoddau a ddefnyddir gan Swyddfa Archwilio Cymru;
- swm yr adnoddau a gronnir gan Swyddfa Archwilio Cymru y gellir eu cadw (yn hytrach na'u talu i'r Gronfa Gyfunol);
- y swm y gellir ei dalu o'r Gronfa Gyfunol i Swyddfa Archwilio Cymru.

Yn Nhabl 1 isod, ceir crynodeb o'r gofynion hyn. Gan fod y ffrydiau incwm hyn yn gallu amrywio, mae'r ffigurau hyn o reidrwydd yn amcangyfrifon.

Tabl 1: crynodeb o ofynion cyllidebol amcangyfrifedig 2019-20

| | £'000 |
|---|---|
| Adnoddau ac eithrio adnoddau cronnus i'w defnyddio gan Swyddfa Archwilio Cymru i gyflawni swyddogaethau statudol Swyddfa Archwilio Cymru, yr Archwilydd Cyffredinol ac archwilwyr penodedig llywodraeth leol ac i weinyddu Swyddfa Archwilio Cymru:<br>• Refeniw<br>• Cyfalaf | 7,668<br>210 |
| Adnoddau cronnus o ffioedd a thaliadau am wasanaethau archwilio a gwasanaethau cysylltiedig, costau eraill a adenillir sy'n gysylltiedig â swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol, ac incwm amrywiol sy'n deillio o gyhoeddiadau, cynadleddau a darparu gwasanaethau gweinyddol, proffesiynol a thechnegol, i'w defnyddio gan Swyddfa Archwilio Cymru i ddarparu gwasanaethau cysylltiedig ac i weinyddu Swyddfa Archwilio Cymru | 14,475 |
| Y gofyniad arian parod net o'r Gronfa Gyfunol i dalu'r symiau net sy'n daladwy yn ystod y flwyddyn gan Swyddfa Archwilio Cymru. | 9,586 |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone.: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru